Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

10 - 14 Mehefin 2013
PRIFYSGOLION CYMRU TANIO TYFIANT
WELSH UNIVERSITIES DRIVING GROWTH
10 - 14 June 2013

| | |
|---|---|
| **HEFCW newsletter** <br> **June 2013** | **Newyddlen CCAUC** <br> **Mehefin 2013** |
| **Chief Executive's introduction** | **Cyflwyniad y Prif Weithredwr** |
| Funding for higher education 2013/14 | Cyllid ar gyfer addysg uwch 2013/14 |
| HEFCW's Corporate Strategy | Strategaeth Gorfforaethol CCAUC |
| Welsh universities: driving growth, 10-14 June 2013 | Prifysgolion Cymru: tanio tyfiant, Mehefin 10 - 14 2013 |
| Future Directions for skills and employability in Wales | Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer Sgiliau a Chyflogadwyedd yng Nghymru |
| Universities contribute to Welsh economy | Prifysgolion yn cyfrannu i economi Cymru |
| Future Directions for part-time higher education in Wales | Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer addysg uwch ran-amser yng Nghymru |
| Changes to institutional review | Newidiadau i'r adolygiad sefydliadol |
| 10 years of GO Wales and Reaching Wider | 10 mlynedd o GO Wales ac Ymgyrraedd yn Ehangach |
| Universities reach out to under-represented groups | Prifysgolion yn ymestyn allan i grwpiau a dangynrychiolir |
| Financial health of higher education institutions | Iechyd ariannol sefydliadau addysg uwch |
| Council news | Newyddion y Cyngor |
| **Publications** | **Cyhoeddiadau** |
| **Events** | **Digwyddiadau** |
| **Chief Executive's introduction** <br> Two of our flagship initiatives, the graduate employability programme GO Wales and the widening access programme *Reaching Wider,* are ten years old this month. Both have positively influenced the lives of countless students in Wales over the past ten years. We would love to hear from anyone who has had experience of both of these programmes - someone who was inspired to continue to higher education by | **Cyflwyniad y Prif Weithredwr** <br> Mae dwy o'n prif fentrau, rhaglen cyflogadwyedd graddedigion GO Wales a rhaglen ehangu mynediad *Ymgyrraedd yn Ehangach*, yn ddeg oed y mis hwn. Mae'r ddwy wedi cael dylanwad cadarnhaol ar fywydau nifer helaeth o fyfyrwyr yng Nghymru yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Byddem wrth ein bodd i glywed wrth unrhyw un sydd â phrofiad o'r ddwy raglen hon - rhywun a gafodd ei ysbrydoli i barhau mewn addysg uwch drwy raglen |

an outreach programme, who then went on to find a valuable work placement following graduation through GO Wales.

Continuing with the celebratory theme, we formally welcomed the creation of the University of South Wales on 11 April, following the merger of the University of Glamorgan and the University of Wales, Newport. We wish the new university, its staff and almost 35,000 students all the very best as the merger settles over the coming weeks and months.

We announced our funding settlement for the next academic year at the beginning of April. 2013/14 will be the second year of the new system of fees and funding for higher education in Wales, and we continue to shift from funding based on a formulaic, block grant, to universities getting more of their resources from higher fees and fee grants.

Universities and eligible further education colleges must submit acceptable fee plans to HEFCW before they are allowed to charge between £4k and £9k for a higher education course in any given academic year. We recently consulted on making some fundamental changes to the arrangements from 2014/15. After listening to the concerns of the higher education sector, and to give ourselves additional time to obtain legal advice on what we can include in our guidance, we announced that we would not be making extensive changes until 2015/16.

Finally, we have just published our latest Corporate Strategy, which shares our vision for HE in Wales until 2016. We look forward to the Education Minister's forthcoming policy statement on HE in Wales to further inform universities', and our, strategic direction.



allgymorth, a aeth ymlaen i ddod o hyd i leoliad gwaith gwerthfawr ar ôl graddio drwy GO Wales.

Gan barhau â'r thema o ddathlu, gwnaethom groesawu sefydliad Prifysgol De Cymru ar 11 Ebrill, ar ôl i Brifysgol Morgannwg uno â Phrifysgol Cymru, Casnewydd. Dymunwn yn dda i'r brifysgol newydd, ei staff a bron i 3,500 o fyfyrwyr, a phob lwc wrth i'r uniad setlo yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Gwnaethom gyhoeddi ein setliad ariannol ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf ar ddechrau Ebrill. 2013/14 fydd ail flwyddyn y system newydd o ffioedd a chyllido ar gyfer addysg uwch yng Nghymru, ac rydym yn parhau i newid o ddull cyllido yn seiliedig ar grantiau bloc, fformwlaig, a bydd prifysgolion yn cael mwy o'u hadnoddau o ffioedd a grantiau ffioedd.

Rhaid i brifysgolion a cholegau addysg bellach gyflwyno cynlluniau ffioedd derbyniol i CCAUC cyn y gallant godi rhwng £4k a £9k am gwrs addysg uwch mewn unrhyw flwyddyn academaidd. Yn ddiweddar gwnaethom ymgynghori ar wneud newidiadau sylfaenol i'r trefniadau o 2014/15. Ar ôl gwrando ar bryderon y sector addysg uwch, ac i roi mwy o amser i ni gael cyngor cyfreithiol ar yr hyn y gallwn gynnwys yn ein canllaw, gwnaethom gyhoeddi na fyddem yn gwneud newidiadau sylweddol tan 2015/16.

I gloi, rydym wedi cyhoeddi ein Strategaeth Gorfforaethol ddiweddaraf, sy'n rhannu ein gweledigaeth am AU yng Nghymru tan 2016. Edrychwn ymlaen at ddatganiad polisi'r Gweinidog dros Addysg am AU yng Nghymru i lywio cyfeiriad strategol prifysgolion, a ninnau, ymhellach.



**Funding for higher education 2013/14**

We announced how we would allocate £382 million of funding for higher education in the 2013/14 academic year.

More

**Cyllid ar gyfer addysg uwch 2013/14**

Gwnaethom gyhoeddi sut y byddem yn dyrannu £382 miliwn o gyllid ar gyfer addysg uwch ym mlwyddyn academaidd 2013/14.

Mwy

**HEFCW's Corporate Strategy**

We have now published our plan for HEFCW and for higher education in Wales for the next three years.

More

**Strategaeth Gorfforaethol CCAUC**

Rydym bellach wedi cyhoeddi ein cynllun ar gyfer CCAUC ac addysg uwch yng Nghymru ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Mwy

**Welsh universities: driving growth**
**10-14 June 2013**

The week-long *Welsh Universities – Driving Growth* campaign will look at ways in which higher education institutions can contribute even further in delivering jobs, award-winning research and growth in Wales. During the week, Wales's universities will be coming together to promote, collaboratively, their research outputs as well as their work on student engagement, in the hope that the HE sector in Wales continues to lead the way in economic development. There will be exhibits in the Senedd, and events at Wales's universities.

Its launch event will be held on Tuesday 11 June 2013 at the Senedd building in Cardiff Bay.

More

**Prifysgolion Cymru: tanio tyfiant**
**Mehefin 10 - 14 2013**

Bydd yr ymgyrch wythnos o hyd *Prifysgolion Cymru – Tanio Tyfiant* yn edrych ar ffyrdd y gall sefydliadau addysg uwch gyfrannu hyd yn oed ymhellach i sicrhau swyddi, ymchwil o'r radd flaenaf a thwf yng Nghymru. Yn ystod yr wythnos, bydd prifysgolion Cymru'n dod at ei gilydd i hyrwyddo'u canlyniadau ymchwil ar y cyd, yn ogystal â gwaith ar ymgysylltu â myfyrwyr, yn y gobaith y bydd y sector AU yng Nghymru yn parhau i arwain y ffordd mewn datblygiad economaidd. Bydd arddangosfeydd yn y Senedd, a digwyddiadau ym mhrifysgolion Cymru.

Cynhelir y digwyddiad lansio ddydd Mawrth 11 Mehefin 2013 yn adeilad y Senedd ym Mae Caerdydd.

Mwy

**Conference report:**
***Future Directions for skills and employability in Wales***
**15 May 2013**

"Should you teach a Classics student about numeracy?" was one of the dilemmas discussed at the latest higher education *Future Directions* conference on 15 May.

The conference was an opportunity for academics, careers advisers and university managers to share their experiences about how to make the sort of skills required in employment a fundamental aspect of a student's course – without significantly increasing the workload for undergraduates and their lecturers.

**Adroddiad y Gynhadledd:**
***Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer Sgiliau a Chyflogadwyedd yng Nghymru***
**15 Mai 2013**

"A ddylech chi addysgu myfyriwr y Clasuron am rifedd?" oedd un penbleth a drafodwyd yng nghynhadledd addysg uwch ddiweddaraf Cyfeiriadau'r Dyfodol ar 15 Mai.

Roedd y gynhadledd yn gyfle i ysgolheigion, cynghorwyr gyrfaoedd a rheolwyr prifysgolion rannu eu profiadau am sut i sicrhau bod y mathau o sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth yn agwedd sylfaenol ar gwrs myfyriwr - heb gynyddu'r llwyth gwaith yn sylweddol i'w hisraddedigion a'u darlithwyr.

More

Mwy

**Universities contribute to Welsh economy**

Universities in the UK contributed £3.4 billion to the economy and local communities in 2011/12 through services such as consultancy and training, use of facilities and equipment, and contract and collaborative research, according to newly released figures.

More

**Prifysgolion yn cyfrannu i economi Cymru**

Cyfrannodd prifysgolion yn y DU £3.4 biliwn i'r economi a chymunedau lleol yn 2011/12 drwy wasanaethau fel ymgynghori a hyfforddi, defnyddio cyfleusterau ac offer, ac ymchwil contract a chydweithredol, yn ôl ffigurau sydd newydd eu rhyddhau.

Mwy

**Conference report:**
***Future Directions for part-time higher education in Wales***
**26 April 2013**

The Vice-Chancellor of the Open University (OU) in the UK, Martin Bean, led the speakers at a one-day event run by the OU in Wales, NUS Wales, and the Higher Education Academy to examine where the higher education sector is now, and how it needs to change in order to strengthen part-time opportunities for students.

The Minister for Education, Leighton Andrews, was a keynote speaker. He underlined how the part-time opportunities provided by the OU are at the core of the Welsh Government's mission for HE in Wales, and pointed out that while overall demand for part-time higher education is down, England and Wales had twice the proportion of part-time students as the nearest comparator among 20 EU countries surveyed.

**Adroddiad y Gynhadledd:**
***Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer addysg uwch ran-amser yng Nghymru***
**26 Ebrill 2013**

Bu Is-ganghellor y Brifysgol Agored yn y DU, Martin Bean, yn arwain y siaradwyr mewn digwyddiad undydd a gynhaliwyd gan y Brifysgol Agored yng Nghymru, UCM Cymru, a'r Academi Addysg Uwch i archwilio sefyllfa'r sector addysg uwch ar hyn o bryd, a sut mae angen iddo newid er mwyn crynhau cyfleoedd rhan amser i fyfyrwyr.

Roedd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews, yn un o'r prif siaradwyr. Tanlinellodd fod y cyfleoedd rhan amser a ddarperir gan y Brifysgol Agored wrth wraidd cenhadaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer AU yng Nghymru, a nododd er bod y galw cyffredinol am addysg uwch wedi lleihau, mae Cymru a Lloegr wedi denu ddwywaith cymaint o fyfyrwyr rhan-amser â'r cymharydd agosaf ymhlith 20 o wledydd yr UE a fu'n rhan o'r arolwg.

**Consultation on changes to institutional review**

HEFCW has a statutory responsibility for assessing quality in universities. The institutional review: Wales currently checks how effectively universities manage the quality and standards of their academic provision. We are now consulting on changes to this process that will continue to be both flexible and robust, and will help us meet our responsibility in this area.

More

**Ymgynghoriad ar newidiadau i'r adolygiad sefydliadol**

Mae gan CCAUC gyfrifoldeb statudol am asesu ansawdd prifysgolion. Yr adolygiad sefydliadol: Ar hyn o bryd mae Cymru'n gwirio pa mor effeithiol mae prifysgolion yn rheoli ansawdd a safonau eu darpariaeth academaidd. Rydym bellach yn ymgynghori ar newidiadau i'r broses hon a fydd yn parhau i fod yn hyblyg a chadarn, ac a fydd yn ein helpu i fodloni ein cyfrifoldeb yn y maes hwn.

Mwy

**10 years of GO Wales and *Reaching Wider***

**10 mlynedd o GO Wales ac *Ymgyrraedd yn Ehangach***

| English | Cymraeg |
|---|---|
| This year, we celebrate ten years of two of HEFCW's flagship programmes.<br><br>More than 6,500 individuals have benefited from GO Wales, which offers quality, paid student and graduate placements at hundreds of businesses and organisations around Wales.<br>More<br><br>*Reaching Wider,* which is delivered through three partnerships across Wales, has spent ten years working with schools and communities in disadvantaged areas to help raise aspirations, and create new study opportunities and learning pathways to higher education. This is part of our long-term plan to widen access to higher education in Wales.<br>More | Eleni, rydym yn dathlu deng mlynedd ers creu dwy o brif raglenni CCAUC.<br><br>Mae mwy na 6,500 o unigolion wedi elwa ar GO Wales, sy'n cynnig lleoliadau o ansawdd da â thâl i fyfyrwyr a graddedigion mewn cannoedd o fusnesau a sefydliadau ledled Cymru.<br>Mwy<br><br>*Mae Ymgyrraedd yn Ehangach,* sy'n cael ei chyflenwi drwy dair partneriaeth ledled Cymru, wedi treulio deng mlynedd yn gweithio gydag ysgolion a chymunedau mewn ardaloedd difreintiedig i helpu i godi dyheadau a chreu cyfleoedd astudio newydd a llwybrau dysgu i addysg uwch. Mae hyn yn rhan o'n cynllun tymor hir i ehangu mynediad i addysg uwch yng Nghymru.<br>Mwy |
| **Welsh universities reach out to under-represented groups**<br><br>The latest UK-wide figures about the make-up of the student population in higher education, published in March, show that universities in Wales continue to perform well in widening access in a UK context.<br>More | **Prifysgolion Cymru'n ymestyn allan i grwpiau a dangynrychiolir**<br><br>Mae ffigurau diweddaraf y DU ynglŷn â chyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr mewn addysg uwch, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, yn dangos bod prifysgolion yng Nghymru'n parhau i berfformio'n dda o ran ehangu mynediad yng nghyd-destun y DU.<br>Mwy |
| **Financial health of higher education institutions**<br>We have recently published a report on the financial health performance indicators for the higher education sector in Wales for 2011/12, based on the audited financial statements returned by institutions.<br>More | **Iechyd ariannol sefydliadau addysg uwch**<br>Rydym wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar ar ddangosyddion perfformiad iechyd ariannol ar gyfer sector addysg uwch Cymru ar gyfer 2011/12, yn seiliedig ar y datganiadau ariannol archwiliedig a ddychwelwyd gan sefydliadau.<br>Mwy |
| **Council news**<br>David Mason and Bethan Guilfoyle have been re-appointed as members of the Higher Education Funding Council for Wales for a second three-year term from 1 April 2013. | **Newyddion y Cyngor**<br>Mae David Mason a Bethan Guilfoyle wedi cael eu hail-benodi fel aelodau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am ail dymor o dair blynedd o 1 Ebrill 2013. |
| **Publications** | **Cyhoeddiadau** |

| | |
|---|---|
| Consultation: Changes to the Institutional Review: Wales (W13/13HE)<br><br>Consultation: Developing the HEFCW Part-time Higher Education Action Plan 2012-13 to 2015-16 Circular (ref W13/12HE)<br><br>Fee Plan Guidance 2014/15 (ref W13/11HE) | Ymgynghoriad: Newidiadau i'r Adolygiad Sefydliadol: Cymru (W13/13HE)<br><br>Ymgynghoriad: Cylchlythyr Datblygu Cynllun Gweithredu Addysg Uwch Ran-Amser CCAUC 2012-13 i 2015-16 (cyf W13/12HE)<br><br>Canllaw i'r Cynllun Ffioedd 2014/15 (cyf W13/11HE) |
| **Events**<br><br>**HE Week in the Senedd.**<br><br>*Welsh universities: driving growth*<br><br>10-14 June 2013<br><br>--------------------------------------------------<br><br>**HEFCW Council meetings:**<br><br>Friday, 5 July 2013<br><br>Thursday, 5 September 2013<br><br>Friday, 8 November 2013<br><br>Friday, 24 January 2014<br><br>--------------------------------------------------<br><br>**HEFCW annual public meeting**<br><br>Friday, 18 October 2013 (morning) | **Digwyddiadau**<br><br>**Wythnos AU yn y Senedd.**<br><br>*Prifysgolion Cymru: tanio tyfiant*<br><br>Mehefin 10 – 14 2013<br><br>--------------------------------------------------<br><br>**Cyfarfodydd Cyngor CCAUC:**<br><br>Dydd Gwener, 5 Gorffennaf 2013<br><br>Dydd Iau, 5 Medi 2013 2013<br><br>Dydd Gwener, 8 Tachwedd 2013<br><br>Dydd Gwener, 24 Ionawr 2014<br><br>--------------------------------------------------<br><br>**Cyfarfod cyhoeddus blynyddol CCAUC**<br><br>Dydd Gwener, 18 Hydref 2013 (bore) |
| To **unsubscribe** from this newsletter, please email **info@hefcw.ac.uk** with the words 'unsubscribe - newsletter' in the subject box. | I **dynnu'ch enw oddi ar restr danysgrifio'r** newyddlen hon, anfonwch neges e-bost at **info@hefcw.ac.uk** gyda'r geiriau 'tynnu enw tanysgrifio i'r newyddlen' yn y blwch pwnc. |
| **We value your feedback**<br><br>We would like to know what you think about our newsletter. Please send your comments to info@hefcw.ac.uk. | **Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth**<br><br>Hoffem wybod eich barn ar ein newyddlen. Anfonwch eich sylwadau at info@hefcw.ac.uk. |